Datblygu syniadau ar gyfer cynyrchiadau ffilm neu deledu

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â llunio, datblygu a chyflwyno syniadau, gan fanteisio ar eich gwybodaeth, profiad a dealltwriaeth o ofynion y diwydiant.

Mae'n ymwneud â meddwl am syniadau, datblygu syniadau rydych eisoes wedi meddwl amdanyn nhw drwy awgrymu gwelliannau a deall sut caiff syniadau dichonol eu rhoi ar waith wrth ymwneud â gwahanol gyfryngau a ffurfiau. Gallwch weithio ar eich liwt eich hun neu gydweithio gydag eraill.

Bydd angen ichi ddangos gwybodaeth o'r farchnad, y tueddiadau presennol ac yn y dyfodol a sut mae eich syniad chi yn cydymffurfio gyda'r paramedrau hynny. Bydd hefyd angen ichi ystyried unrhyw ystyriaethau cyfreithiol, moesegol a moesol pan fo'n briodol.

Mae'r Safon hon yn ymwneud â gwybod sut i lunio'r syniad a'i gyflwyno i fuddsoddwyr dichonol.
Yn ogystal fe fydd angen ichi ofalu bod y syniad yn cynrychioli eich brand chi / brand personol y cwmni cynhyrchu ei hun a'r buddsoddwyr dichonol. Bydd angen ichi ymrwymo i'r syniad a gofalu bod hyn yn amlwg wrth ichi ddatblygu eich cais.

Mae'r Safon hon yn arbennig ar gyfer y rheiny sydd ynghlwm â datblygu syniadau ar gyfer cynyrchiadau, gan gynnwys rheolwyr cynhyrchu a staff golygyddol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. ymchwilio a dadansoddi data a gwybodaeth gan ffynonellau perthnasol er mwyn datblygu syniadau
2. datblygu syniadau sydd â'r dichonolrwydd a'r sylwedd i fodloni gofynion cynhyrchu a'r farchnad
3. awgrymu syniadau neu welliannau i syniadau sy'n dwyn i ystyriaeth y ffurf, yr arddull, y gyllideb a'r gynulleidfa ddichonol
4. amlygu'r gwahaniaethau a'r tebygrwydd rhwng syniadau a chynyrchiadau tebyg er mwyn gwirio gwreiddioldeb syniadau
5. datblygu cynigion amlinellol ac ymdriniaethau manwl sy'n defnyddio iaith eglur a darbwyllol
6. llunio deunyddiau blasu pan fyddan nhw o help i gyflwyno syniadau i eraill
7. addasu ymdriniaethau i fodloni gofynion o ran yr amserlen a'r gyllideb
8. defnyddio gwybodaeth gan ffynonellau dibynadwy er mwyn cadarnhau bod ffactorau risg lleiaf posib i brosiectau a'r cwmni cynhyrchu
9. cydymffurfio gyda holl reoliadau a chodau ymarfer perthnasol wrth ddatblygu syniadau
10. awgrymu cast a chriw wedi'u henwi rydych chi'n eu hystyried yn addas ar gyfer cyflawni cynyrchiadau
11. cynnwys gwybodaeth briodol wrth gyflwyno syniadau i gynhyrchwyr, arianwyr a golygyddion comisiynu er mwyn sicrhau buddsoddiadau a chyllid
12. pennu'r dichonolrwydd ar gyfer cynhyrchu a dosbarthu aml-lwyfan gorau posib
13. trafod a dod i delerau gyda phobl briodol yn ystod y broses datblygu syniadau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. ffynonellau syniadau a sut i fanteisio arnyn nhw
2. tueddiadau a datblygiadau cyfredol ynghyd ag anghenion newidiol y diwydiant
3. gwahanol ffurfiau a'r disgwyliadau ynghlwm â phob un
4. holl agweddau cynhyrchu, o ddatblygu i gyflwyno
5. gofynion creadigol a chyllidebol buddsoddwyr
6. sut gall ffactorau cyllidebol, technegol a logistaidd effeithio ar syniadau ac amserlenni
7. sut i wirio bod syniadau yn rhai gwreiddiol a ddim yn gwrth-ddweud rheoliadau neu bolisïau
8. sut i lunio deunyddiau blasu effeithiol a phryd y bydd hi'n fuddiol ichi wneud hynny
9. effaith gofynion cynhyrchu, polisïau golygyddol a'r gynulleidfa ddichonol ar lwyddiant syniadau
10. y fframwaith rheoleiddiol a'r codau ymarfer ar gyfer cynyrchiadau
11. ystyriaethau cyfreithiol a moesegol allweddol a fydd yn effeithio ar y defnydd o wybodaeth mewn cynyrchiadau
12. sut i leihau ffactorau risg i gynyrchiadau a chwmnïau cynhyrchu
13. sut i allanoli gwybodaeth datblygu ac ymwybyddiaeth o'r farchnad a phryd mae'n briodol ichi wneud hynny
14. gwerth a budd cydweithio gydag asiantau gwerthiannau a dosbarthwyr
15. sut gall cynlluniau dosbarthu ac aml-lwyfan gorau posib dichonol fod yn fuddiol ar gyfer syniadau
16. sut i lunio a chyflwyno pecynnau effeithiol ar gyfer buddsoddwyr dichonol
17. sut i gydweithio gydag eraill mewn ffordd galonogol ac adeiladol drwy gydol y broses datblygu

SKSP1

Datblygu syniadau ar gyfer cynyrchiadau ffilm neu deledu

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSP1 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Rheolwyr Cynhyrchu, Cydlynydd Cynhyrchu |
| **Cyfres/Set** | Cynhyrchu (Ffilm a Theledu) |
| **Geiriau Allweddol** | Teledu, Ffilm, Cynhyrchiad, Deunyddiau, Syniadau |